O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 131 (Cy.31)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 (Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gwm-bach Llechryd, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2011

Gwnaed	*24 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*5 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) a Chefnffordd Glanusk Park (Crucywel) – Llys-wen (yr A479) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd am ei bod yn debyg y byddai cludo llwythi anwahanadwy annormal yn achosi perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 (Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gwm-bach Llechryd, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 5 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd y llwythi anwahanadwy annormal wedi cyrraedd pen eu taith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt y gyffordd rhwng cefnffyrdd yr A470 a'r A465 ger Cefncoedycymer, Merthyr Tudful hyd at bwynt 1000 o